**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 26 Tachwedd 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 11 Rhagfyr 2019 |

**PWNC**

Eitem 6:CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-24

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd cymeradwyo'r ddogfen Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 fel drafft ar gyfer ymgysylltu gyda'r cyhoedd.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau fod cytundeb ar gynnwys dogfen ymgynghorol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y Cynllun yw lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig a phobl sydd heb y nodweddion hynny yn unol â'r dyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a dymuniad y Cabinet.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Mae Grŵp Craidd Cydraddoldeb wedi bod yn rhan o'r broses o greu'r adroddiad.

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 26 Tachwedd 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 11 Rhagfyr 2019 |

**PWNC**

Eitem 7:ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi adroddiad blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'r cynnydd yn 2018-19 ar y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'n ofynnol yn rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn paratoi, cyhoeddi a chyflwyno adroddiad blynyddol ar eu gwaith ac yn ei yrru ymlaen i sylw Llywodraeth Cymru.

Nodwyd fod yr Adroddiad Blynyddol wedi cael sêl bendith gan aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gogledd Cymru fel amlinelliad teg a chytbwys o waith y Bartneriaeth am y flwyddyn 2018/19.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad